

Cynllun Lleihau Carbon

Enw'r cyflenwr

Coleg Sir Benfro

Dyddiad cyhoeddi

Ionawr 2026

Ymrwymiad i gyflawni sero net

Mae Coleg Sir Benfro wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050.

Ôl troed allyriadau sylfaenol

Mae allyriadau sylfaenol yn gofnod o'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwyd yn y gorffennol ac a gynhyrchwyd cyn cyflwyno unrhyw strategaethau i leihau allyriadau.

Allyriadau sylfaenol yw'r pwynt cyfeirio y gellir mesur lleihau allyriadau yn ei erbyn.

Blwyddyn sylfaenol: 2018/19

Manylion ychwanegol sy'n ymwneud â'r cyfrifiadau allyriadau sylfaenol:

Blwyddyn academaidd 2018/19

Mae Cwmpas 1 yn cynnwys allyriadau nwy a fflyd.

Mae Cwmpas 2 yn cynnwys allyriadau trydan.

Mae Cwmpas 3 yn cynnwys dŵr, teithio busnes, gwastraff a'r gadwyn gyflenwi. Sylwch nad yw data 2018/19 yn cynnwys cymudo gweithwyr, gweithio gartref na theithio busnes ar hediadau gan nad yw'r data hwn ar gael. Mae data Cwmpas 3 2024/25 yn cynnwys cymudo gweithwyr, gweithio gartref a theithio busnes o hediadau. Mae'r Coleg wedi bod yn gweithio'n weithredol i wella cyflawnrwydd a chywirdeb ei adroddiadau allyriadau carbon ers 2019.

Allyriadau blwyddyn sylfaenol:

Allyriadau	Cyfanswm (tCO ₂ e)
Cwmpas 1	349.5
Cwmpas 2	394.5
Cwmpas 3 (ffynonellau wedi'u cynnwys)	2,089.8
Cyfanswm allyriadau	2,833.8

Adrodd ar allyriadau cyfredol

Blwyddyn adrodd: 2024/25

Allyriadau	CYFANSWM (tCO2e)
Cwmpas 1	257.9
Cwmpas 2	228.8
Cwmpas 3 (ffynonellau wedi'u cynnwys)	2,327.6
Cyfanswm yr allyriadau	2,814.3

Targedau lleihau allyriadau

Er mwyn parhau â'n cynnydd tuag at gyflawni sero net, rydym wedi mabwysiadu'r targedau lleihau carbon canlynol.

Rydym yn rhagweld y bydd allyriadau carbon o Cwmpas 1 a 2 yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf i 50 tCO2e erbyn 2031. Mae hyn yn ostyngiad o 11%.

Prosiectau lleihau carbon

Mentrau lleihau carbon wedi'u cwblhau

Mae'r mesurau a'r prosiectau rheoli amgylcheddol canlynol wedi'u cwblhau neu eu gweithredu ers llinell sylfaen 2018/19. Mae'r gostyngiad mewn allyriadau carbon a gyflawnwyd gan y cynlluniau hyn yn cyfateb i 772.3 tCO2e, gostyngiad o 27.25% o'i gymharu â llinell sylfaen 2018/19 a bydd y mesurau mewn grym wrth gyflawni'r contract. Mae hyn yn seiliedig ar Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas 3 (dŵr, teithio busnes, gwastraff, cadwyn gyflenwi ac eithrio hediadau, cymudo a gweithio gartref gan nad oes data ar gael ar gyfer y 3 olaf ar gyfer 2018/19).

- Ardystiedig i Lefel 5 o Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd
- Mae'r holl drydan a brynir o fis Ebrill 2026 yn dod o ynni adnewyddadwy glân (ffynonellau adnewyddadwy gwynt, solar a/neu dŵr y DU yn unig)
- Amnewid yr holl oleuadau i LED ar draws ystâd y coleg
- Amnewid boeleri'r prif adeilad gyda modelau mwy effeithlon
- Cynhaliwyd cynllun amnewid ffenestri ar draws y prif adeilad
- Gosodwyd 16 pwynt gwefru cerbydau trydan
- 50kW PV ar adeilad ILS, 85 kW PV ar adeilad peirianeg newydd, 200 kW PV ar y prif adeilad, 100 kW PV ar TIC
- Pwmp gwres ffynhonnell aer wedi'i osod yn yr adeilad peirianeg newydd ac adeilad ILS yn Llwynhelyg
- Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, gwastraff cyffredinol bellach yn cael ei brosesu trwy gyfleuster ynni o wastraff
- Prynu car trydan a fan newydd
- Disodlwyd 2 ffrwr nwy gyda ffrwyr trydan
- Mae'r Coleg wedi cymryd rhan yng nghynllun adrodd carbon sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru ers ei sefydlu sydd wedi gwella'r ffordd rydym yn monitro ac yn adrodd ar allyriadau
- Strategaeth gynaliadwyedd wedi'i llunio a'i chymeradwyo
- Gweithredwyd deddfwriaeth gwastraff Llywodraeth Cymru yn llawn yn 2024
- Mae offer TG wedi'i uwchraddio gyda modelau mwy effeithlon ar draws ystâd y coleg

- Ychwanegwyd 'Methu â bodloni ymrwymïadau cynaliadwyedd a sero net carbon' at gofrestr risg gorfforaethol y Coleg

Mentrau lleihau carbon yn y dyfodol

Yn y dyfodol rydym yn gobeithio gweithredu mesurau pellach fel:

- Ffotofoltäig 50 kW ychwanegol i'w ychwanegu at y prif adeilad, sy'n weithredol o fis Medi 2026
- Boeleri dŵr poeth trydan i'w gosod yn ystod prosiect adnewyddu i leihau'r defnydd o nwy, yn weithredol o fis Medi 2026 ar gyfer un adain o'r adeilad
- Gwell system rheoli adeiladau i un adain o'r adeilad fel rhan o'r gwaith adnewyddu
- Gosod gerddi dŵr glaw fel rhan o brosiect adnewyddu, sy'n weithredol o 2026
- Gwell system rheoli adeiladu ar draws y Coleg cyfan
- Symud yr holl foeleri dŵr poeth o nwy i drydan
- Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb o symud i ffwrdd o wresogi nwy

Datgan a llofnodi

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i gwblhau yn unol â PPN 006 a'r canllawiau a'r safon adrodd cysylltiedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon.

Mae allyriadau wedi'u hadrodd a'u cofnodi yn unol â'r safon adrodd a gyhoeddwyd ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a safon gorfforaethol 13 y Protocol Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr ac mae'n defnyddio ffactorau trosi allyriadau priodol y llywodraeth ar gyfer adrodd cwmnïau nwyon tŷ gwydr.¹⁴

Sylwch fod canllawiau adrodd sero net carbon Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio i gyfrifo allyriadau sy'n seiliedig ar safon gorfforaethol Protocol Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr ac yn defnyddio ffactorau trosi allyriadau priodol y llywodraeth ar gyfer adrodd cwmnïau nwyon tŷ gwydr.

Mae allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 wedi'u hadrodd yn unol â gofynion SECR (lle bo angen), ac mae'r is-set ofynnol o allyriadau Cwmpas 3 wedi'u hadrodd yn unol â'r safon adrodd a gyhoeddwyd ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a'r Safon Cadwyn Gwerth Gorfforaethol (Cwmpas 3).¹⁵

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i adolygu a'i lofnodi gan y bwrdd cyfarwyddwyr (neu gorff rheoli cyfatebol).

Llofnodwyd ar ran y cyflenwr:



.....
Dyddiad:30/01/2026.....

¹³ <https://ghgprotocol.org/corporate-standard>

¹⁴ www.gov.uk/government/collections/government-conversion-factors-for-company-reporting

¹⁵ <https://ghgprotocol.org/standards/scope-3-standard>